Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

Ysgol Gynradd Nefyn
Ffordd Dewi Sant,
Nefyn
Gwynedd
LL53 6EA

Rhif yr Ysgol: 6612004

Dyddiad yr Arolygiad: 23/03/09

gan

E Goronwy Morris
78283

Dyddiad Cyhoeddi: 29/05/09

O dan rif contract Estyn: 1108608

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Nefyn fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Nefyn rhwng 23.03.09 a 25.03.09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Edward Goronwy Morris. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys Tudalen

Cyd-destun **6**
Crynodeb **8**
Argymhellion **11**
Safonau **12**
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? **12**

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant **14**

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? **14**

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? **16**

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? **17**

Arweinyddiaeth a rheolaeth **19**

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? **19**

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? **20**

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? **21**

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu **23**
Mathemateg **23**
Gwyddoniaeth **23**
Dylunio a thechnoleg **24**
Daearyddiaeth **25**
Celf **26**
Cerddoriaeth **27**

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad **28**

Atodiadau **29**

1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol **29**
2 Data a dangosyddion ysgol **30**
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol **31/32**
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad **33**
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu **34**

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gynradd Nefyn ym mhentref Nefyn, ar arfordir gogleddol Pen Llyn yn Ngwynedd. Gweithredir polisi iaith dwyieithog yr Awdurdod Lleol(ALl). Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a rhai o'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae plant o Ysgol Morfa Nefyn yn ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 4. Nid yw'r ardal o dan anfantais economaidd nac ychwaith yn llewyrchus iawn. Mae pump y cant o'r disgyblion wedi'u cofrestru fel rhai â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd yr ALl o 12.8 y cant a'r ganran ar draws Cymru o 17.5 y cant. Mae cefndiroedd y disgyblion a'u cyrhaeddiad ar fynediad i'r ysgol yn cynrychioli ystod lawn o amgylchiadau a chyrhaeddiad. Mae hyd at 70 y cant o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar fynediad i'r ysgol. Mae canlyniadau asesiad sylfaen yn yr ysgol oddeutu cyfartaledd y sir.
2. Ar hyn o bryd, mae 123 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran derbyn i flwyddyn (B) 6. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser yn unol â pholisïau'r AALl ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Derbynnir plant i'r feithrin yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed; ar hyn o bryd, mae 12 plentyn yn mynychu'n rhan amser. Mae 26 disgybl wedi eu hadnabod fel rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan gynnwys saith ar 'gweithredu ysgol a mwy' a pedwar sydd ar ddatganiad o Anghenion Addysgu Arbennig (AAA). Nid oes un disgybl yn yr ysgol yn derbyn cymorth dysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol nac ychwaith ddisgybl sydd dan ofal yr ALl.
3. Yn ogystal â'r pennaeth sydd â gofal dosbarth am ddiwrnod yr wythnos mae pum athrawes amser llawn arall. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2005. Mae niferoedd y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol ers pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Chwefror 2003.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

4. Prif nod Ysgol Nefyn yw galluogi pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu'u potensial yn llawn drwy ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwroaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w galluogi i ddod yn ddinasyddion dwyieithog sy'n weithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol, ac yn ddysgqwyr gydol oes. Ymdrechir i greu naws gwarchodol, di-ormes, caredig a disgybledig. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau moesol y disgyblion trwy eu dysgu am anghenion pobl eraill a thrwy eu hannog i ymateb mewn dull cadarnhaol i ddiwallu'r anhenion hynny.
5. Yn y flwyddyn ysgol bresennol, rhoddir blaenoriaeth i:

   - godi safonau Cymraeg (CA1) a Mathemateg (CA2);
   - ddatblygu 'Dysgu ac Addysgu', er mwyn sicrhau addysgu o safon gyson uchel ym mhob gwers;
   - sicrhau mwy o rôl weithredol i blant yn y dysgu;

- ymestyn pob plentyn hyd at orau eu gallu;
- addasu cynlluniau gwaith tymor byr i adlewyrchu'r pwyslais ar fedrau meddwl;
- ailystyried cynnwys y rhaglen ABaCh yn sgil y ddogfen newydd;
- gwblhau'r portffolios- gosod lefelau;
- ddatblygu mwy ar rôl monitro y Cydlynwyr a sicrhau cyswllt â Rheoli Perfformiad a'r CDY;
- ddatblygu'r gyfundrefn hunan arfarnu drwy bwysleisio mwy ar y dysgu yn y cofnodion arsylwi gwersi;
- addasu cyfrifoldebau'r Cymorthyddion i sicrhau codi safonau; a
- phrynu offer a.y.y.b. ar gyfer gweithrediad y Cyfnod Sylfaen / gweithio tu allan i'r dosbarth yn effeithiol.

Crynodeb

6. Mae Ysgol Nefyn yn ysgol dda ac yn sefydliad hapus iawn. Rhinwedd arbennig yr ysgol yw'r ymdeimlad o gymuned deuluol ac agosatrwydd y disgyblion. Mae elfen o ragoriaeth yn y profiadau dysgu gynigir i'r disgyblion a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad. Maent yn gwneud cynnydd, yn cyflawni'n dda ac yn datblygu'n hyderus ddwyieithog.

7. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		**Gradd arolygu**
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 2
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 2
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

8. Mae asesiadau statudol athrawon yn 2008 yn dangos bod 82.4 y cant o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd h.y. y lefel 2 disgwyliedig yn y tri pwnc Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.7 y cant. Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 mae 74 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar lefel 4 neu uwch o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 75.5 y cant.

9. Os ystyried y data dros dreigl amser o dair blynedd mae canlyniadau asesiadau'r CC yn y ddau gyfnod allweddol o'u cymharu ag ysgolion tebyg h.y. yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn tueddu i fod yn y 50 y cant isaf. Mae perfformiad y merched trwyddi draw yn rhagori ar y bechgyn gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.

10. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
21%	71%	8%	0%	0%

11. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn

genedlaethol, mae safonau'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o wersi ac mae safonau'n rhagorol (Gradd 1) mewn 12% o wersi.

12. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

13. Yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a Thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 1	Gradd 1

14. Ar draws yr ysgol gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial. Mae sgiliau cyfathrebu llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn dda. Defnyddiant eu medrau mathemategol, datrus problemau a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol mewn amryw o bynciau. Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn dda. Mae elfen o ragoriaeth yn eu medrau creadigol. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

15. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn diwethaf yn 94.5 y cant. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae prydlondeb yn dda.

16. Mae agwedd y rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at ddysgu yn dda. Cydweithiant yn hapus a siriol gyda'i gilydd. Serch hynny, nid yw gallu disgyblion i adnabod drostynt eu hunain sut i wella eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.

17. Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, personol, cymdeithasol a diwylliannol.

18. Mae cyfraniad y disgyblion at fywyd y gymuned yn dda iawn ac yn rhoi sylfaen gadarn iddynt ym mhwysigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

19. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
19%	71%	10%	0%	0%

20. Mae'r ffigurau yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn genedlaethol mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 83 y cant o wersi ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (Gradd 1) mewn 16 y cant o wersi.

21. Mae'r athrawon wedi sefydlu perthynas dda iawn gyda'r disgyblion ac yn sicrhau cyfleon cyfartal.

22. Yn y gwersi a farnwyd yn rhagorol, ceir cyflwyniadau egnïol a bywiog, sgiliau holi ac ymestyn iaith eithriadol ynghyd ag amrywiaeth o strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol.

23. Yn y rhan helaethaf o'r gwersi gwelwyd ôl paratoi'n drylwyr a chynllunio'n effeithiol mewn ymateb i anghenion y gwahanol oedrannau a galluoedd o fewn y dosbarthiadau. Yn yr ychydig wersi lle nodwyd diffygion mae elfen o or-gyfarwyddo sy'n effeithio ar dempo'r wers ac yn cyfyngu ar y cyfleon i ddisgyblion i gynllunio a threfnu eu gwaith eu hunain.

24. Mae'r gweithdrefnau asesu, cofnodi a choladu yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i gynnwys y disgyblion yn fwy yn y broses o hunan asesu eu gwaith.

25. Mae elfen o ragoriaeth yn y profiadu dysgu a gynigir i'r disgyblion. Mae'r addysg a ddarperir yn bodloni anghenion statudol, yn sicrhau dilyniant a pharhad a chyfleon cyfartal i bawb. Mae'r trefniadau parthed datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol. Mae'r disgyblion hefyd yn elwa o amrediad rhagorol o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymdeithasol. Mae rhagoriaethau hefyd yn y sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy. Gwelir dylanwad y gweithgareddau hyn yn y safonau a gyflawnir.

26. Mae ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn dda iawn. Mae cyfle cyfartal ym mhob gweithgaredd. Rhoddir ystyriaeth fanwl i Addysg bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Mae'r bartneriaeth â rhieni, y gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill yn dda.

27. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn dda ac mae'n bodloni gofynion y Cod Ymarfer yn llwyr.

28. Mae gweithdrefnau'r ysgol sy'n ymwneud â chynnal ymddygiad da yn weithredol ac effeithiol. Fe adlewyrchir hyn ym mywyd a gwaith bob dydd yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

29. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad sensitif a gofalgar. Caiff gefnogaeth dda gan y dirprwy a'r holl staff. Mae nodau ac amcanion cytunedig yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn hynod o gefnogol, yn weithgar ac yn drylwyr. Serch hynny, nid yw sustemau monitro'n canolbwyntio'n ddigonol ar gyflawniad disgyblion.

30. Mae diwylliant o hunan arfarnu'n bodoli o fewn yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r staff yn ymwybodol o'i chryfderau a'r agweddau i'w datblygu. Mae'r gweithdrefnau hunan arfarnu yn gynhwysfawr a chynhwysol ac yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth a'i ddadansoddi.

31. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwelliant, ar y cyfan, yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Serch hynny, mae'r broses ar hyn o bryd yn rhy gymleth i gynnig cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

32. Mae gan yr ysgol nifer digonol o athrawon a staff cefnogi ar gyfer nifer y disgyblion. Mae ymroddiad yr holl staff yn hybu nodau'r ysgol yn effeithiol.

33. Mae gofod yr adeilad a'r safle yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Serch hyn mae'r adeilad yn dangos ychydig o draul amser. Mae'r arddangosfeydd o fewn yr ysgol yn ddeniadol a symbylol ac yn creu amgylchedd cyffrous sy'n hybu'r dysgu a'r addysgu.

34. Mae cyflenwad digonol o adnoddau ar gyfer y gwahanol bynciau ac fe'u defnyddir yn effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae rheolaeth ariannol yr ysgol yn dda. Goruchwylir y cyllid yn ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Argymhellion

35. Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 ddatblygu ymhellach allu'r dysgwyr i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain a dod yn gynyddol gyfrifol am eu haddysgu eu hunain;

A2 alluogi dysgwyr i ddeall yr hyn y mae angen iddynt wneud i wella'u gwaith a sicrhau cynnydd;

A3 creu mwy o gyfleon strwythredig i staff a'r corff llywodraethol ffurfio barn ar ba mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni.

A4 osod blaenoriaethau a thargedau gwella cyflawniad, meini prawf llwyddiant penodol a chamau gweithredu eglur er mwyn gwella.

Mae argymhelliad A1 ac A3 eisoes yn flaenoriaethau yn yr adroddiad hunan arfarnu neu'r CDY.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

36. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

37. Mae asesiadau statudol athrawon yn 2008 yn dangos bod 82.4 y cant o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd h.y. y lefel 2 disgwyliedig yn y tri pwnc Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 80.7 y cant. Mae cyraeddiadau y disgyblion saith oed ym mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r ALl. Maent yn is yn y Gymraeg.

38. Yn yr un flwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 mae 74 y cant o ddisgyblion yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar lefel 4 neu uwch o gymharu a'r cyfartaledd cenedlaethol o 75.5 y cant. Mae cyrhaeddiad y disgyblion 11 oed yng Nghymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r ALl. Maent yn is ym Mathemateg.

39. ystyried y data dros dreigl amser o dair blynedd mae canlyniadau asesiadau'r CC yn y ddau gyfnod allweddol o'u cymharu ag ysgolion tebyg h.y. yr ysgolion hynny gyda niferoedd tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn tueddu i fod yn y 50 y cant isaf. Er fod bechgyn wedi perfformio'n well na merched yng nghyfnod allweddol 2 yn 2008 mae perfformiad y merched trwyddi draw yn rhagori ar y bechgyn gan adlewyrchu'r darlun cenedlaethol.

40. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi a arolygwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
21%	71%	8%	0%	0%

41. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn genedlaethol, mae safonau'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 84% o wersi ac mae safonau'n rhagorol (Gradd 1) mewn 12% o wersi.

42. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn cydweithredu gyda'i gilydd yn dda ac yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau heriol sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu.

43. Yn CA1 a CA2, yn y pynciau a arolygwyd mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pynciau	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a Thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Daearyddiaeth	Gradd 2	Gradd 2
Celf	Gradd 1	Gradd 1
Cerddoriaeth	Gradd 1	Gradd 1

44. Gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion, beth bynnag yw eu hoed, rhyw, gallu, cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol gynnydd da wrth gaffael medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Cyflawnant dargedau a nodau cytunedig. Mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

45. Ar draws yr ysgol mae sgiliau cyfathrebu llafar disgyblion gyda'i gilydd a gydag oedolion yn dda. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwrando'n dda, yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd ac yn darllen ac ysgrifennu yn ôl eu gallu a'u hoedran. Mae'r rhan fwyaf yn barod i gyfrannu'n ddeallus mewn sgwrs a thrafodaeth dosbarth. Mae iaith lafar disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn barod iawn i drafod eu gwaith. Siaradant yn hyderus gan ddefnyddio geirfa berthnasol. Maent yn gwrando'n astud ar yr athrawon ac ar ei gilydd. Mae eu gallu i ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dangos gwelliant cynyddol ar draws y cyfnod allweddol. Defnyddiant lyfrau cyfeirio'n ddeallus i gywain gwybodaeth mewn sawl agwedd o'u gwaith. Defnyddia'r mwyafrif eu sgiliau ysgrifennu'n briodol i gofnodi eu gwaith. Serch hynny, nid yw ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad llawer o'r disgyblion yn adlewyrchu'r safonau da a gyflawnir.

46. Ar draws yr ysgol mae medrau mathemategol a datrys problemau mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u medrau mewn sawl cyd-destun er enghraifft drwy drin cyfesurynnau ar fap ac wrth gasglu a dadansoddi data. Mae'r mwyafrif yn hyderus iawn wrth ddefnyddio TGCh a gwnânt ddefnydd da o'u medrau i gywain a chyflwyno gwybodaeth er enghraifft yn eu gwaith ar India. Mae elfen o ragoriaeth ym medrau creadigol disgyblion. Amlygir hyn yn eu gwaith mewn celf a cherddoriaeth.

47. Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion yn dda. Maent yn datblygu'n hyderus ddwyieithog ac yn ymdrin yn dda a thestunau yn y ddwy iaith.

48. Mae agwedd y rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at ddysgu yn dda ar draws yr ysgol ac fe welir hyn yn y safonau a gyrhaeddir. Maent yn cyfrannu a chanolbwyntio'n dda yn eu gwersi. Mae eu gallu i weithio'n annibynnol dan gyfarwyddyd eu hathrawon yn dda. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhai disgyblion yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o'u lefelau cyflawniad a dangos dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau yn eu gwaith. Serch hynny nid yw gallu disgyblion i adnabod drostynt eu hunain sut i wella eu gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Cydnabyddir hyn gan yr ysgol.

49. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda. Rhoddant barch i'w hathrawon a hefyd tuag at ymwelwyr â'r ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithredu'n dda gyda rhagoriaethau yn y modd maent yn ymdrin ag agweddau amgylcheddol a bwyta'n iach. Maent yn trin a thrafod eu profiadau addysgol yn ddoeth ac aeddfed. Mae hyn oll yn rhoi seiliau cadarn i'r disgyblion ddatblygu'n aelodau cyfrifol o'r gymuned.

50. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol ar draws y tri thymor llawn diwethaf yn 94.5 y cant. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae prydlondeb yn dda.

51. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. Maent yn ystyriol, cyfeillgar a chwrtais i'w gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn cyd-weithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac yn cefnogi naill ar llall yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae eu dealltwriaeth o onestrwydd a thegwch yn amlwg a dangosant barch, gofal a phryder amlwg am eraill. Maent yn ymwybodol o'r angen i gadw'n iach.

52. Dengys y disgyblion ddealltwriaeth dda o faterion cyfle cyfartal ynghyd â pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas.

53. Mae gan y disgyblion nifer o gyfleon i ehangu eu dealltwriaeth o'u cymuned ac maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth dda iawn o'r byd o'u cwmpas ac yn rhoi sylfaen gadarn iddynt ym mhwysigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig.

54. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

55. Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
19%	71%	10%	0%	0%

56. Mae'r ffigurau yn cymharu'n dda â'r darlun cenedlaethol a adroddwyd gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2007 i 2008. Yn genedlaethol mae ansawdd yr addysgu'n dda neu'n well (Gradd 1 a 2) mewn 83 y cant o wersi ac mae ansawdd yr addysgu'n rhagorol (Gradd 1) mewn 16 y cant o wersi.

57. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn y maes drwy fynychu cyrsiau priodol. Maent wedi sefydlu perthynas dda iawn gyda'r disgyblion yn seiliedig ar barch ddwy ffordd ac maent yn creu hinsawdd sy'n gydnaws â dysgu effeithiol.

58. Mae'r athrawon yn cwrdd ag anghenion ieithyddol disgyblion yn y ddwy iaith ac yn sicrhau cyfle cyfartal.

59. Yn y gwersi a farnwyd yn rhagorol, ceir cyflwyniadau egnïol a bywiog, sgiliau holi ac ymestyn iaith eithriadol ynghyd ag amrywiaeth o strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol.

60. Yn y rhan helaethaf o'r gwersi mae ôl paratoi trylwyr a chynllunio da. Gwelir nod clir i'r gwersi, cyfarwyddiadau da ac amrywiaeth pwrpasol o dasgau addas sy'n cyfateb i anghenion y gwahanol oedrannau a galluoedd o fewn y dosbarthiadau. Ceir awyrgylch drefnus a chadarnhaol a rheolaeth dda ar amser. Defnyddir sgiliau holi da a phwyslais penodol ar wella iaith y disgyblion.

61. Yn yr ychydig wersi lle nodwyd diffygion mae elfen o or-gyfarwyddo gan athrawon sy'n cael effaith ar dempo'r wers ac yn cyfyngu ar y cyfleon i ddisgyblion i gynllunio a threfnu eu gwaith eu hunain.

62. Mae gweithdrefnau asesu a chofnodi'n yr ysgol yn dda ac yn weithredol. Maent yn dilyn y canllawiau sirol a chenedlaethol ac yn bodloni'r gofynion statudol. Drwy asesiadau parhaus yr athrawon a gweinyddu profion safonedig yn rheolaidd fe wneir defnydd effeithiol o'r gwybodaeth i baratoi gwaith addas ar gyfer unigolion ac i wirio cynlluniau gwaith os bydd angen. Mae'r ysgol yn dadansoddi canlyniadau asesiadau'r CC yn ofalus a defnyddir y data yn bwrpasol er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a chodi safonau.

63. Mae'r portffolios pynciol yn cynnwys samplau o waith sydd wedi'u dadansoddi a'i lefelu drwy'r broses o gymedroli ac oherwydd yn rhoi darlun clir o lefel cyrhaeddiad pob plentyn. Defnyddir y llyfrau asesu a chofnodi cynnydd yn effeithiol a phwrpasol i gofnodi asesiadau unigolion.

64. Fe osodir targedau unigol er gwella ar gyfer pob disgybl ar sail adnabyddiaeth yr athro o ddatblygiad a chyflawniad yr unigolyn ond nid yw'r disgyblion hyd yma yn deall yn hollol beth yw diben asesu nac yn chwarae rhan digon amlwg yn y broses.

65. Mae polisi marcio'r ysgol yn glir. Cynigir sylwadau canmoladwy yn aml ond prin yw sylwadau adeiladol i helpu disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

66. Mae adroddiadau i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol ac maent o ansawdd da ble dangosir yr hyn mae'r disgyblion wedi'i gyflawni. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau bob amser yn dangos yn glir targedau gwelliant ar gyfer y dyfodol. Mae cyfle deirgwaith y flwyddyn i rieni fynychu cyfarfod i drafod gwaith eu plant. Fe roddir cyfle rheolaidd i rieni gyda drws agored i drafod unrhyw agwedd o waith eu plant yn anffurfiol pe bo'r angen. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfleon yma.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

67. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

68. Mae'r addysg a ddarperir gan yr ysgol yn bodloni anghenion statudol drwy gynnig ystod eang o brofiadau diddorol sy'n sicrhau dilyniant a pharhad a chyfleon cyfartal i bawb.

69. Mae ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn briodol ar gyfer eu hanghenion. Mae'r cynllunio ar gyfer cyfnod allweddol 1 a 2 yn yr holl bynciau yn drylwyr ac yn rhoi arweiniad clir i athrawon. Caiff datblygiad y medrau allweddol sylw da ac maent wedi eu plethu i'r gwersi ac yn effeithiol. Llwyddwyd i adnewyddu'r Marc Safon yn ystod 2006-07.

70. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog y disgyblion yn dda iawn. Mae cyflwyno agweddau o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hyrwyddo eu datblygiad yn effeithiol. Gweithredir polisi iaith y Sir yn llwyddiannus ac effeithiol dros ben.

71. Rhoddir sylw da i astudio treftadaeth Cymru drwy'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig. Fe ddysgir am etifeddiaeth Cymru drwy astudiaethau o arweinwyr megis, Dewi Sant, William Morgan ac arlunwyr fel Kyffin Williams. Fe gymherir nifer o'r disgyblion ran yng ngweithgareddau Urdd Gobaith Cymru ac maent yn amlwg yn cael budd a mwynhad o'r profiadau. Mae'r agweddau yma o waith yr ysgol yn amlwg iawn.

72. Mae ymateb yr ysgol i ofynion ABCh yn rhagorol. Mae wedi'u cynllunio'n ofalus ar draws pob agwedd o waith yr ysgol sydd yn sicrhau fod eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn seiliedig ar egwyddorion a gwerthoedd clir. Mae sesiynau cydaddoli yn cwrdd â'r gofynion statudol ac maent yn achlysuron llwyddiannus pan rennir negeseuon Cristionogol, moesol a theimladau ysbrydol gyda disgyblion. Mae naws arbennig i'r gwasanaethau, gyda'r disgyblion yn gwneud cyfraniad effeithiol. Mae sesiynau 'amser cylch' hefyd yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a dealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol a chymdeithasol ac yn eu cynorthwyo i barchu gwirionedd a chyfiawnder. Mae'r Cyngor Ysgol yn galluogi'r disgyblion i ddysgu am ddinasyddiaeth ac i gymryd rhan yn ffurfiol mewn gwneud penderfyniadau a datrys problemau. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n gyson i achlysuron cymunedol ac i elusennau. Mae hyn yn ymgyfoethogi addysg a datblygiad personol y disgyblion, ac yn eu paratoi i ddyfod yn aelodau cyfrifol o'i cymuned.

73. Mae gan yr ysgol amrediad rhagorol o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol, megis Yr Urdd, ffeiriau, cyngherddau, ymweliadau a gweithgareddau eraill. Maent wedi'i trefnu'n ofalus a phwrpasol i ehangu a chyfoethogi profiadau'r disgyblion Fe welir dylanwad y gweithgareddau hyn yn y safonau da a gyflawnir yn enwedig mewn pynciau fel celf a daearyddiaeth.

74. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni yn gadarn. Mae safon y cyfathrebu, y cyfarfodydd, adroddiadau, llythyru, yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau iddynt, yn dda. Mae'r Cytundeb Cartref ac Ysgol, Llawlyfr y Rhieni, ac Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr hefyd yn ymateb a'r gofynion. Mae " Cymdeithas Rhieni ac Athrawon" yn weithgar iawn yn y gynhaliaeth o'r ysgol. Daw nifer o rieni i helpu yn yr ysgol drwy wrando, siarad a darllen gyda'r disgyblion. Fe welir rhieni hefyd yn cynorthwyo mewn sesiynau gwaith llaw, dylunio a thechnoleg, hyfforddi chwaraeon a goruchwylio disgyblion ar ymweliadau addysgol. Mae hyn yn cyfrannu yn dda at gyfoethogi addysg y disgyblion. Mae cymdeithas y rhieni yn weithgar yn codi arian at gronfa'r ysgol a defnyddir yr arian yn ofalus i brynu adnoddau ychwanegol.

75. Mae cysylltiadau a phartneriaeth dda gyda'r Cylch Meithrin. Agos iawn yw'r bartneriaeth ag Ysgol Babanod y Morfa, Morfa Nefyn ac ysgolion cynradd cyfagos ac fe drefnir hyfforddiant mewn swydd ar y cyd. Mae cyswllt da hefyd gyda'r ysgol uwchradd a'r colegau lleol. Gwneir defnydd llawn o wasanaeth cwmni CYNNAL wrth drefnu hyfforddiant a chynhaliaeth i'r staff.

76. Mae'r ysgol ag amrediad da o gysylltiadau a busnes i hyrwyddo addysg gysylltiedig a gwaith a hefyd canfyddiadau galwedigaethol. Mae busnesau lleol yn noddi'r ysgol yn flynyddol.

77. Mae gan yr ysgol bolisïau gofynnol ar gyfer cyfle cyfartal, gwrth hiliaeth, asesiadau risg, amddiffyn plant, anableddau, hygyrchedd anabledd a'r tebyg. Maent oll yn gynhwysfawr, trefnus a llwyr weithredol.

78. Mae'r sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy yn dda, gyda rhagoriaethau. Mae'r ysgol wedi derbyn y Wobr Aur. Mae gwaith ymestynnol wedi ei gwblhau ar fywyd gwyllt, tirwedd, ailgylchu, casglu sbwriel yn y dref ac oddi ar y traeth, lleihau gwastraff, a hefyd ar ffyrdd diogel. Fe welir effaith hyn yng ngwaith y plant a hefyd canfyddiadau eglur a doeth y disgyblion yn y drafodaeth gyda'r Cyngor Ysgol. Mae'r ysgol wedi derbyn y Faner Werdd.

79. Mae eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd eang hefyd yn datblygu'n dda, gyda chyfraniadau at elusennau a gwaith addysgol. Yn ychwanegol maent yn ymwybodol o raglen gefeillio Nefyn a Puerto Madryn, Yr Ariannin, cysylltiadau ac ysgol yn yr Eidal, a hefyd astudiaethau ar wledydd tramor. Rhoddir sylw da hefyd i'r Fasnach Deg.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

80. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

81. Mae ansawdd y cyfarwyddyd, arweiniad a'r cymorth a gynigir i'r disgyblion yn dda iawn. Mae'r ysgol yn gymuned ble mae'r disgyblion yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Ceir ethos ofalgar, hapus ac awyrgylch positif iawn sy'n

seiliedig ar gydberthynas da iawn rhwng pawb. Mae'r holl staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac mae pawb, beth bynnag eu hoed a'u gallu yn cael pob cyfle i ddatblygu'n addysgiadol, yn bersonol a chymdeithasol. Teimla'r disgyblion yn gysurus yn eu gallu i droi at unrhyw aelod o'r staff am gyfarwyddyd neu gymorth.

82. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth dda gyda'r rhieni a'r gymuned. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau'r asiantaethau allanol perthnasol. Os oes unrhyw bryder am ddisgybl fe gysylltir ar cartref yn syth. Mae rhieni a gwirfoddolwyr eraill ôr pentref yn ymweld yn gyson ar ysgol i gefnogi darllen a rhoi cymorth mewn gwaith ymarferol a chwaraeon. Mae Cyngor yr Ysgol yn cynrychioli'r disgyblion, yn effeithiol iawn gan sicrhau bod llais disgyblion yn cael ei hystyried o ddifrif. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod materion a godir mewn ffordd aeddfed a chyfrifol.

83. Mae'r plant ieuengaf a'r disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Fabanod Morfa Nefyn yn ymgartrefu'n gyflym a chânt gefnogaeth dda gan eu hathrawon, cymorthyddion a phlant hŷn yr ysgol.

84. Rhoddir ystyriaeth fanwl i ABCh wrth drefnu gweithgareddau. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleon da i ddisgyblion fynegi eu barn a thrafod problemau. Manteisiant hefyd ar y cyfleon yn ystod gwersi penodol, cyd-addoli dyddiol, a chyfnodau myfyrio.

85. Mae'r polisïau a'r holl weithdrefnau ar gyfer monitor prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad disgyblion yn eu lle. Maent oll yn gynhwysfawr ac wedi eu llunio yn ofalus. Maent yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Mae'r cofrestrau a'r weinyddiaeth gysylltiedig, gyda chofnodion, a llythyrau oddi wrth y rhieni, yn ymateb i ofynion Cylchlythyr 47/06 LL.C.C. Mae y gweithdrefnau gogyfer ymddygiad, disgyblaeth a gwrth fwlian hefyd yn dda. Fe efelychir cynlluniau Webster Stratton.

86. Ceir polisïau a gweithdrefnau i sicrhau lles, iechyd a diogelwch y disgyblion, ac mae materion sydd yn codi pryder yn cael sylw union ac ebrwydd. Mae asesiadau risg yn cael sylw priodol. Mae diogeledd yr adeilad hefyd yn effeithiol.

87. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn dda. Mae'n cwrdd yn llawn â gofynion y Côd Ymarfer. Defnyddir profion statudol ynghyd â phrofion darllen yn effeithiol i asesu'r disgyblion er mwyn adnabod unrhyw anhawster yn fuan. Mae'n broses hynod o fanwl ac yn arwain at gefnogaeth ychwanegol addas i gwrdd ag anghenion dysgu penodol. Cedwir golwg clos ar eu cynnydd a chydweithir yn effeithiol iawn gyda'r rhieni, asiantaethau'r ALl a'r ysgol uwchradd leol. Llunnir cynlluniau addysg unigol o ansawdd dda ar gyfer unigolion.

88. Mae ansawdd gwaith y cydlynydd ADY yn dda drwy roi arweiniad a chefnogaeth glir. Mae ganddi wybodaeth manwl am anghenion y disgyblion a chydweithia'n dda gyda'r athrawon i gyd. Fe drafodir achosion a thargedau disgyblion unigol yn rheolaidd gyda pawb yn cyfrannu at y cofnodion manwl a

gedwir. Mae cysylltiad defnyddiol a phwrpasol gyda'r llywodraethwr dynodedig unwaith bob tymor.

89. Mae'r Cynllun Addysg Unigol (CAU) o safon dda ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Mae'r targedau dysgu penodol yn cyfateb yn briodol i anghenion y disgyblion unigol. Mae tystiolaeth glir o'r cynnydd a wnaiff y disgyblion hyn mewn ymateb i'r gefnogaeth.

90. Mae gweithdrefnau'r ysgol sy'n ymwneud â chynnal ymddygiad da, dileu ymddygiad gormesol a hyrwyddo cydberthynas dda rhwng yr holl ddisgyblion yn weithredol. Er mai nifer fechan o ddisgyblion sydd yn amlygu problemau ymddygiadol, mae'r staff yn adnabod y sgiliau a'r strategaethau priodol i ymateb yn effeithiol i unrhyw achos. Gwneir defnydd llawn ac effeithiol o'r cymorthyddion ac o asiantaethau allanol pe bo'r angen. Mae'r drefn 'Plant i'w Canmol' yn hyrwyddo ymddygiad positif ac agweddau cyfrifol tuag at eraill yn llwyddiannus iawn.

91. Mae ystod o bolisïau perthnasol ar gyfer sicrhau cydraddoldeb cyfle, hiliol ac amryfaliaeth diwylliannol. Trafodir y materion hyn yn gyson mewn sesiynau addoli ar y cyd a gwersi AbCh ynghyd ag adnabod cyfleon o fewn y cwricwlwm i herio stereoteipiau.

92. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal yn dda ac yn cael ffocws yn amlwg iawn yn y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y ddau ryw yn effeithiol iawn, gyda'r bechgyn a'r merched yn derbyn yr un cyfleon o fewn y dosbarth ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae canllawiau i ymateb a achosion o hiliaeth wedi'u mabwysiadu ac fe gedwir cofnod o unrhyw achosion. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o stereoteipio yn ystod yr arolygiad. Cefnogir y farn hon gan y disgyblion yn ystod eu trafodaethau gyda'r arolygwyr.

93. Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer dysgwr sydd âg anabledd corfforol yn briodol. Mae polisi hygyrchedd priodol yn ei le.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

94. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

95. Mae'r pennaeth yn meddu ar werthoedd cadarn ac yn cynnig arweiniad sensitif a gofalgar. Caiff gefnogaeth dda gan y dirprwy a'r holl staff. Cydrennir disgwyliadau uchel a gwerthoedd cyffredin ynghylch dysgu, ymddygiad, cydberthnasau a chyfleon cyfartal.

96. Mae nodau a pholisïau priodol wedi eu llunio sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion ac ar greu'r amodau gorau posibl i bob unigolyn ddatblygu a ffynnu. Maent yn cael eu hadlewyrchu'n dda yng ngwaith ac ethos yr ysgol. Perchir

barn disgyblion o bob oedran a thrwy'r cyngor ysgol, caiff disgyblion gyfleon da i ddylanwadu ar nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

97. Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol gyda phwyslais da ar egwyddorion Ysgolion Iach ac Ysgolion Gwyrdd. Llwyddwyd i ennill ail-achrediad Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn 2007. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol wrth baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac werth adolygu'r cynlluniau gwaith tymhorol mewn ymateb i'r trefniadau cwricwlwm ac asesu diwygiedig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2.

98. Mae gan yr ysgol ddull priodol o osod targedau. Dadansoddir asesiadau'r disgyblion yn ofalus i adnabod cryfderau a gwendidau. Mae'r targedau ysgol gyfan a bennir yn dargedau cyraeddadwy a realistig. Mae strategaethau effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer cyrraedd y targedau a osodir.

99. Ysgwydda'r staff gyfran dda o gyfrifoldebau dros agweddau o'r cwricwlwm. Maent yn cyfrannu ac yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygiad yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol wedi eu sefydlu ar gyfer gwella medrau a hyfedredd athrawon. Serch hynny nid yw'r broses, ar hyn o bryd, yn canolbwyntio'n ddigonol ar gyflawniad y disgyblion.

100. Darperir cyfleon da i staff i fynychu cyrsiau priodol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i ehangu cyfleon i staff rannu arfer dda o fewn yr ysgol.

101. Mae'r corff llywodraethol yn hynod o gefnogol i'r pennaeth, yn weithgar ac yn drylwyr. Trefnir cyfarfodydd rheolaidd a chedwir cofnodion eu trafodaethau a'u penderfyniadau'n drefnus a chywir. Trwy adroddiadau tymhorol y pennaeth ac ymweliadau llywodraethwyr unigol mae'r corff llywodraethol yn cael darlun da o weithgareddau'r ysgol. Serch hynny, nid yw rôl y corff llywodraethol parthed monitro'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni wedi'i datblygu'n ddigonol.

102. Mae'r corff llywodraethol yn bodloni'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a osodir arnynt ac mae'r polisïau perthnasol yn eu lle. Mae Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i'r rhieni yn cwrdd â'r gofynion.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

103. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

104. Mae'r pennaeth a'r staff yn dangos ymrwymiad llwyr i safonau uchel ac yn gynyddol weithredol yn y broses o hunan arfarnu. Maent yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol ac agweddau i'w datblygu.

105. Mae gweithdrefnau hunan arfarnu wedi eu sefydlu sy'n gynhwysfawr ac yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth a'i ddadansoddi. Defnyddir nifer o ddulliau o fewn y drefn gan gynnwys edrych ar gynlluniau dysgu, trafod enghreifftiau o waith disgyblion, arsylwi addysgu a dadansoddi'n ofalus ganlyniadau asesiadau ffurfiol. Serch hynny nid yw'r broses hyd yma'n canolbwyntio'n ddigon penodol

ar arfarnu safonau a gyflawnir gan y disgyblion a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella.

106. Mae'r broses yn gynhwysol ac mae'r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a'r llywodraethwyr. Dadansoddir ymateb rhieni a disgyblion i holiaduron yn fanwl. Caiff disgyblion hefyd gyfle i roi barn trwy'r cyngor ysgol.

107. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a luniwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn gynhwysfawr a gonest ac yn amlygu cryfderau ac agweddau i'w datblygu. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn y saith cwestiwn allweddol.

108. Mae'r blaenoriaethau a bennir yn y CDY, ar y cyfan, yn addas ar gyfer datblygiad yr ysgol. Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a'r deilliannau disgwyliedig ynghyd â'r monitro arfaethedig. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi'r datblygiadau. Serch hynny, mae'r broses ar hyn o bryd yn rhy gymleth i gynnig cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.Cydnabyddir hyn gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r angen i lunio'r meini prawf llwyddiant yn fwy penodol yn nhermau cyflawniadau disgyblion.

109. Gwnaeth yr ysgol gynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Cymerwyd camau gweithredol priodol mewn ymateb i'r holl faterion allweddol. Cafodd y camau a gymerwyd effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?
Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

110. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

111. Mae digon o athrawon addysgu a chymorthyddion ac maent wedi'u cymhwyso'n dda i addysgu a chefnogi addysg y disgyblion. Maent yn brofiadol ac mae eu cymwysterau yn addas i'w cyfrifoldebau. Defnyddir y cymorthyddion i gyd yn effeithiol iawn ac fe wneir defnydd arbennig o arbenigedd cerdd yr uwch cymhorthydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad y disgyblion.

112. Mae aelodau'r staff i gyd yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm. Mae hwn yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

113. Mae'r athrawon yn mynychu cyfarfodydd hyfforddiant mewn swydd i ddiweddaru eu gwybodaeth ac yn trosglwyddo agweddau priodol yn effeithiol i wella'r addysgu a'r dysgu.

114. Gweithredir yn unol â'r gofynion statudol i ganiatáu amser digyswllt i'r athrawon. Gwneir defnydd effeithiol o'r amser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth addysgol yn gyffredinol.

115. Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer pob oedran. Maent o ansawdd da, yn hwylus wrth law i'r disgyblion a'r athrawon ac yn cyfateb i anghenion a gofynion y cwricwlwm. Darperir adnoddau newydd yn unol a blaenoriaethau'r CDY.

116. Mae gofod yr adeilad a'r safle yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae gofod digonol yn y neuadd ar gyfer cydaddoli a gweithgareddau ymarferol a gwneir defnydd effeithiol ohoni. Mae'r buarth, gyda wyneb da, yn addas ac wedi ei farcio'n bwrpasol ar gyfer gemau. Mae y cae chwarae, gardd yr ysgol a'r amgylchedd yn ddeniadol a defnyddiol iawn. Mae ardal allanol wedi ei datblygu'n ddigonol i ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Cedwir a chynhelir yr ysgol yn dda. Serch hyn mae'r adeilad yn dangos ychydig o draul amser

117. Mae'r arddangosfeydd o fewn yr ystafelloedd dosbarth, y rhodfeydd a'r neuadd yn ddeniadol a symbylol ac yn creu amgylchedd cyffrous sy'n hybu'r dysgu a'r addysgu. Maent o safon uchel ac yn dangos fod yr ysgol yn gwerthfawrogi cyflawniadau y disgyblion.

118. Mae rheolaeth ariannol yn dda. Mae'r pennaeth a'r corf llywodraethol yn ystyried cyllid yr ysgol yn ofalus ac yn cyllido ar gyfer blaenoriaethau yn effeithlon. Maent yn gwerthuso anghenion yr ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Mathemateg

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

119. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ddealltwriaeth dda o batrymau rhif. Byddant yn cyfrif ymlaen ac yn ôl mewn camau o wahanol feintiau ac o wahanol rifau. Bydd y mwyafrif yn cyfrif, yn trefnu, yn adio ac yn tynnu rhifau'n gywir gyda'r goreuon yn galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10 i adio neu dynnu rhifau hyd at 100. Mae eu dealltwriaeth o werth lle yn datblygu'n briodol.

120. Defnyddia'r mwyafrif unedau ansafonol a safonol bob dydd yn gywir i fesur hyd a mas. Maent yn ymwybodol o werthoedd gwahanol ddarnau arian. Maent yn adnabod a defnyddio haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol.

121. Mae'r mwyafrif yn gallu siarad yn ddeallus am eu gwaith drwy ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd.

122. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion o werth lle, patrymau rhif a ffeithiau rhif yn datblygu'n dda. Gallant ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i ddatrys problemau mewn geiriau gan adio, tynnu, lluosi a rhannu'n gynyddol hyderus. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn ymateb yn chwim gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrif yn y pen gan alw i gof ffeithiau lluosi'n gyflym a chywir.

123. Gall y mwyafrif ddefnyddio mesuriadau safonol addas mewn hyd, mas, cynhwysedd ac amser a gall nifer dda ohonynt drosi mesuriadau o un uned i un arall yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol gallant gyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau syml yn dda. Defnyddiant bren mesur ac onglydd yn ofalus a chywir.

124. Mae mwyafrif y disgyblion yn trafod gwahanol fathau o ddata yn effeithiol. Casglant a chyflwynant wybodaeth yn dda gan ddefnyddio graffiau, tablau a diagramau.

Diffygion

125. Nid yw gwybodaeth rhai disgyblion canolig ac is eu gallu o'u bondiau rhif a'u ffeithiau lluosi yn ddigon sicr a chwim.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

126. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2 yn trafod eu gwaith yn hyderus gan arddangos meistrolaeth dda o'r eirfa wyddonol. Maent yn defnyddio offer yn ddiogel ac yn ymwybodol o'r angen i roi sylw i ffactorau iechyd a diogelwch.

127. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn defnyddio ystod da o ffynonellau yn hyderus er mwyn darganfod gwybodaeth am eu gwaith. Mae gan pawb ddealltwriaeth dda o sut i gynnal ymholiad mewn ffordd systematig gan wneud cyfres o arsylwadau manwl.

128. Mae mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn deall na fydd dyfeisiau trydanol yn gweithio os bydd toriad yn y gylched, ac y gellir defnyddio switsh yn y gylched i reoli dyfais drydanol.

129. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan nifer fawr o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'r synhwyrau, y system nerfol, y cylchred gwaed, y sgerbwd a'r system dreilio bwyd. Dangosant wybodaeth da am oleuni, trydan, tymheredd a grym.

130. Dangosant ddealltwriaeth dda iawn o wahanol fwydydd, gan esbonio'n wybodus y rhai sydd yn dda i ni a'r rhai llai iachus gan roi rhesymau da dros y rhai sy'n sicrhau deiet cytbwys.

131. Cynlluniant ymchwiliadau'n drefnus, gwnânt arsylwadau a mesuriadau sy'n fanwl-gywir a chyfathrebant eu canfyddiadau yn effeithiol gan ddefnyddio diagramau, graffiau a thablau. Dônt i gasgliadau synhwyrol ar sail eu hymchwil a'u harsylwadau a gallant gynnig esboniad gwyddonol am yr hyn a ddarganfuwyd.

Diffygion

132. Does dim diffygion pwysig

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

133. Mae'r disgyblion yn gynyddol ymwybodol o'r broses gynllunio. Byddant yn cyfleu eu syniadau drwy luniadau, yn nodi'r deunyddiau sydd eu hangen ac yn rhestru'r camau a gymerwyd yn ystod y broses gwneud. Maent yn arddangos dealltwriaeth gynyddol o sut mae defnyddio offer a chyfarpar yn ddiogel.

134. Yng nghyfnod allweddol 1 mae disgyblion yn ymateb i'w tasgau mewn modd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn ymwybodol o'r angen i ystyried meini prawf llwyddiant wrth ymateb i dasg er enghraifft wrth greu pwrs i gadw arian yn ddiogel. Mae eu gallu i dorri ac uno ystod o ddeunyddiau yn datblygu'n briodol. Mae'r mwyafrif yn gallu egluro'r drefn o weithredu ac yn gwneud sylwadau synhwyrol ar sut y gallent wella eu gwaith.

135. Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r disgyblion yn dylunio a gwneud ystod o gynhyrchion gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau. Maent yn ymwybodol o'r broses ddylunio ac yn medru trafod yr elfennau sylfaenol o ymchwil, cynllunio, dylunio a gwneud yn synhwyrol. Maent yn cofnodi eu syniadau drwy ddefnyddio lluniau a brasluniau i ddangos manylion eu dyluniadau.

136. Mae gallu'r mwyafrif i ddefnyddio offer a thechnegau syml i dorri, siapio, uno a chymysgu defnyddiau a chynhwysion yn datblygu'n briodol. Maent yn ymwybodol o'r angen i ymchwilio'n fanwl cyn dechrau ar waith. Maent hefyd yn ymwybodol sut y gall eu gwaith technoleg ategu eu gwaith mewn meysydd eraill er enghraifft wrth astudio cyfnod y Tuduriaid.

137. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol mae mwyafrif y disgyblion y ymwybodol o sut y gellir atgyfnerthu a chryfhau strwythurau er enghraifft wrth adeiladu pont sy'n agor.

Diffygion

138. Cyfyng yw ymwybyddiaeth disgyblion cyfnod allweddol 2 o sut y gellir defnyddio technoleg i reoli gwahanol fathau o symudiad.

Daearyddiaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

139. Ar draws yn ddau gyfnod allweddol mae nifer fawr o'r disgyblion yn defnyddio geirfa ddaearyddol berthnasol yn dda.

140. Mae dealltwriaeth disgyblion cyfnod allweddol 1 a 2 o'r angen i warchod yr amgylchedd a chynaladwyedd yn dda iawn a dangosant ymwybyddiaeth eglur o bwysigrwydd ailgylchu a'r angen i ddatblygu eu prosiect garddio.

141. Mae medrau ymholi disgyblion cyfnod allweddol 1 yn dda. Maent yn trafod cwestiynau daearyddol am eu hardal leol a gwlad dramor yn hyderus ac yn cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol wrth gyflwyno eu gwaith.

142. Yn dilyn taith gerdded o gwmpas y pentref, mae'r mwyafrif yn trafod nodweddion ffisegol a rhai dynol yn wybodus. Gallant leoli mannau lleol ar fap o'r pentref yn gywir ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o symbolau mapiau. Gwnânt ddefnydd priodol ohonynt i ddehongli eu pentref.

143. Defnyddiant gyfesurynnau syml ac allwedd i nodi lleoliadau gwrthrychau ar fap ac mae nifer yn gyfarwydd ac yn deall pwrpas pedwar pwynt y cwmpawd.

144. Wrth astudio ardal yn India, mae nifer helaeth o'r disgyblion yn gwybod am rai nodweddion hinsawdd, megis glawogydd monsŵn a gwres llethol y wlad, yn ogystal â rhai anifeiliaid gwyllt sy'n byw yno. Maent yn cymharu a chyferbynnu nodweddion sy'n berthnasol i Gymru ac India yn llwyddiannus.

145. Mae gan mwyafrif ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fedrau ymchwil daearyddol da. Wrth astudio ardal gwrthgyferbyniôl fel Botswana, medr yr holl ddisgyblion, yn ôl eu gallu, ddisgrifio eu nodweddion daearyddol a chymharu'r ardal a Nefyn yn llwyddiannus. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r anawsterau economaidd sy'n gwynebu'r wlad a sut mae hyn yn effeithio ar fywyd y trigolion.

146. Deallant nodweddion eu hardal yn dda. Medrant ddarllen mapiau ac awyr luniau amrywiol a medrant ddefnyddio cyfesurynnau grid pedwar a chwe ffigwr wrth nodi lleoliadau penodol ar fapiau. Maent yn gyfarwydd, ac yn deall sut i ddefnyddio wyth pwynt y cwmpawd. Maent yn defnyddio atlasau yn hyderus ac yn adnabod cyfandiroedd a chefnforoedd ar fap o'r byd. Gwyddant yn dda sut i ddod o hyd i wybodaeth am wledydd eraill.

147. Gwna'r disgyblion ddefnydd da iawn o TGCh i ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol wrth iddynt drin, dosbarthu a chyflwyno tystiolaeth am wahanol barciau cenedlaethol ar draws y byd.

Diffygion

148. Does dim diffygion pwysig

Celf

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol
Cyfnod Allweddol 2 : Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

149. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r holl ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o gyfryngau a thechnegau i gynhyrchu gwaith o safon uchel iawn. Maent yn arsylwi'n ofalus ar nodweddion megis lliw, siâp, ffurf a thôn i greu gwaith o ansawdd uchel.

150. Ar draws yr ysgol gwnânt fodelau tri-dimensiwn manwl a defnyddiant sawl cyfrwng i gynhyrchu gwaith o safon dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn casglu gwybodaeth yn ofalus o wahanol ffynonellau ac yn cofnodi gwybodaeth ac arsylwadau'n drefnus cyn cynllunio eu model. Mae safon y gwaith gorffenedig yn dangos dychymyg a chreadigedd unigryw.

151. Yng nghyfnod allweddol 1 a 2, mae'r mwyafrif helaeth yn archwilio, arbrofi a dadansoddi arddulliau rhai artistiaid enwog yn dda iawn. Gallant drafod nodweddion gwaith yr artistiaid hyn ac efelychu eu harddulliau yn effeithiol dros ben yn eu gwaith eu hunain. Mae eu gallu i werthuso eu gwaith a thrafod nodweddion da a diffygion yn datblygu'n dda.

152. Mae'r arddangosfeydd chwaethus a welir ar furiau pob dosbarth ac yn y rhodfeydd yn tynnu sylw at y gwaith rhagorol a gynhyrchir gan y disgyblion.

153. Gwnânt ddefnydd effeithiol iawn o gyfarpar cyfrifiadurol i gyfoethogi eu gwaith.

Diffygion

154. Does dim diffygion pwysig.

Cerddoriaeth

Cyfnod Allweddol 1: **Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol**
Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

155. Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn datblygu sgiliau gwrando ac arfarnu da iawn wrth wrando ac ymateb i ystod eang o gerddoriaeth. Maent oll yn canu'n frwdfrydig ystod eang o ganeuon gan oslefu'n glir, brawddegu'n dda a chadw tonyddiaeth sicr. Mae sesiynau cydganu o safon uchel iawn.

156. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ymwybodol o guriad a rhythm ac yn gwybod pan fydd traw yn codi neu'n disgyn. Maent yn copïo rhythm syml, yn ymwybodol o werth nodau ac yn deall sut i greu patrymau syml gwerth pedwar curiad. Maent yn archwilio amrediad o ffynonellau sain, yn dewis offerynnau traw a di-draw yn hyderus ac yn cydweithio'n effeithiol iawn wrth berfformio.

157. Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r disgyblion yn canu'n hyderus repertoire cynyddol o ganeuon unsain a rhan ganeuon gyda phwyslais arbennig ar eirio clir a brawddegu da.

158. Maent yn cadw curiad, yn ail adrodd rhythm yn dda ac yn darllen graffeg syml yn gywir. Maent yn archwilio gan ddefnyddio'r llais ac amrediad o offerynnau traw a di draw ac yn arddangos sgiliau technegol da iawn wrth berfformio eu cyfansoddiadau. Maent yn gwrando'n astud ar berfformiadau'i gilydd ac yn gwerthuso'n ddeallus.

159. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda iawn o ddynameg, traw a gwead. Maent yn cydweithio'n annibynnol ac yn hynod o effeithiol mewn grŵp gan ddefnyddio'r llais ac amrywiaeth o offerynnau yn gelfydd wrth greu stori cerddorol. Maent yn cofnodi'n effeithiol ac mae eu perfformiadau yn drawiadol.

Diffygion

160. Does dim diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn cydnabod fod Ysgol Nefyn yn ysgol dda, ac yn sefydliad hapus iawn, sydd wedi gwneud cynnydd da ers yr arolwg diwethaf. Nodwyd mai rhinwedd arbennig yr ysgol yw'r ymdeimlad o gymuned deuluol ac agosatrwydd y disgyblion a bod elfen o ragoriaeth yn y profiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu cyflawniad.

Roeddem yn falch fod yr arolygwyr wedi canfod fod ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r gyfarwyddyd a gynigir i'r disgyblion yn dda iawn. Yn ogystal, yn y gwersi a farnwyd yn rhagorol barn yr arolygwyr oedd fod yna gyflawniadau egniol a bywiog, sgiliau holi ac ymestyn iaith eithriadol ynghyd ag amrywiaeth o strategaethau addysgu sy'n hyrywddo dysgu annibynnol.

Cryfder nodedig yn yr ysgol, yn ôl yr arolygwyr yw fod aelodau'r staff i gyd yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm.

Mae trefniadau parthed datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn rhagorol ac maent yn elwa o amrediad rhagorol o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymdeithasol. Mae rhagoriaethau hefyd yn y sylw a roddir i ddatblygiad cynaliadwy ac fe welir dylanwad y gweithgareddau hyn yn y safonau a gyflawnir.

Rhoddir cynllun gweithredu ynghyd gan y staff a'r llywodraethwyr i fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad. Credwn fel tim y gallwn roi sylw dwys i'r pedwar argymhelliad gan eu cynnwys fel prif flaenoriaethau yn ein cynllun datblygu ysgol**.** Byddwn yn gweithredu ar unwaith i godi safonau'n uwch eto'n Ysgol Nefyn. Anfonir copi o gynllun gweithredu'r ysgol mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad i'r holl rieni. Bydd adroddiad blynddol y llywodraethwyr i'r rhieni yn adrodd ar y cynnydd rydym yn ei wneud o ran argymhellion yr arolygiad.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Nefyn
Math o ysgol	Cynradd a'r cyfnod sylfaen
Ystod oedran y disgyblion	4 -11
Cyfeiriad yr ysgol	Ffordd Dewi Sant, Nefyn Gwynedd
Cod post	LL53 6EA
Rhif ffôn	01758 720765

Pennaeth	Mrs Glenys Williams
Dyddiad penodi	Medi 2005
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Mr Gruffydd Wyn Morris
Arolygydd cofrestredig	Mr Goronwy Morris
Dyddiadau'r arolygiad	23/25.03.09

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	6	8	14	12	18	15	27	29	129

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	6	0	6

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	25:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	D/B
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	D/B
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	25.4
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:21.5

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Gwanwyn 2008	87.9	93.1	94.9
Haf 2008	89.1	92.6	94.6
Hydref 2008	90.0	93.0	94.2

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	5%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008					Nifer y disgyblion yn B2		17
Canran y disgyblion ar bob lefel							
			D	W	1	2	3
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	17.6	76.5	5.9
		Cenedlaethol	1	2	10	63	26
Cymraeg: llafaredd	Asesiad athro	Ysgol	0	0	17.6	76.5	5.9
		Cenedlaethol	1	2	10	62	25
Cymraeg: darllen	Asesiad athro	Ysgol	0	0	17.6	76.5	5.9
		Cenedlaethol	1	2	19	66	12
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad athro	Ysgol	0	0	17.6	82.4	0
		Cenedlaethol	0	3	19	66	12
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	76.5	23.5
		Cenedlaethol	0	2	11	65	22
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	100	0
		Cenedlaethol	0	2	9	66	23

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	82.4	Yng Nghymru	80.1

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008			Nifer y disgyblion yn B6			27					
Canran y disgyblion ar bob lefel											
			D	A	F	W	1	2	3	4	5
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	14.8	63.0	22.2
		Cenedlaethol	0.2	0	0	0.5	0.6	3.1	15.6	51.3	28.5
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	14.8	51.9	33.3
		Cenedlaethol	0.3	0	0	0.8	0.8	4.4	16.7	53.4	23.6
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	25.9	59.3	14.8
		Cenedlaethol	0.2	0	0	0.5	0.6	2.7	14.7	51.4	39.9
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	14.8	66.7	18.5
		Cenedlaethol	0.2	0	0	0.5	0.5	1.8	11.4	53.9	31.7

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 4 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	74.1%	Yng Nghymru	75.5%

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd saith diwrnod arolygydd yn yr ysgol. Yn ychwanegol bu asesydd cymheiriad yn rhan o'r tîm arolygu.

Ymwelodd yr arolygwyr â:

- 28 o wersi neu wersi rhannol;
- pob dosbarth; ac
- addoli ar y cyd.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfod fel tîm ar ddechrau'r arolygiad a gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni; a
- gyda'r pennaeth a'r athrawon, y cyngor ysgol ynghyd â grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 26 o ymatebion i holiadur rhieni:
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith y disgyblion yn y gorffennol a'r presennol.

Bu'r pennaeth yn ei rôl fel enwebai yn rhan o bob cyfarfod tîm.

Ar ôl yr arolygiad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Goronwy Morris Arolygydd. Cofrestredig	Cyd-destun Crynodeb ac Argymhellion Cwestiynau Allweddol 1, 2, 5 a 6 Mathemateg Technoleg, Cerdd
Mr William Owen Arolygydd Lleyg	Cyfraniadau at gwestiynau 1, 3, 4, 5 a 7
Mr Merfyn Lloyd Jones Arolygydd tîm	Cwestiynau Allweddol 3, 4 a 7 a chyfraniadau at gwestiynau 1 a 2, Gwyddoniaeth Daearyddiaeth Celf
Mr Clive Williams Asesydd Cymheiriaid	Cyfraniadau i'r holl gwestiynnau
Mrs Glenys Williams Pennaeth Enwebai	Cyfraniadau i'r holl gwestiynau trwy gyfrannu gwybodaeth

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

Contractwr:
Partneriaeth Dyfri Partnership
Awel Tywi
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0EX